**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Ionawr 2024

Annwyl Jenny,

Diolch yn fawr iawn am eich llythyr fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol lle roeddech yn nodi eich cynlluniau i gynnal ymchwiliad dilynol i ofal plant a chyflogaeth rhieni.

Mae eich llythyr yn darparu strwythur defnyddiol ar gyfer y papur tystiolaeth y byddaf yn ei anfon i gefnogi'r dystiolaeth lafar y byddaf yn ei darparu i'r Pwyllgor ar 11 Mawrth.

Mae gofal plant a chyflogaeth rhieni wedi bod yn faterion allweddol ers amser maith i Lywodraeth Cymru. O ran gwybodaeth gefndirol i helpu'r Pwyllgor, efallai y byddwch am nodi'r datblygiadau diweddar.

<u>Ymrwymiad i ehangu gofal plant am ddim i gynnig 12.5 o oriau yr wythnos i bob plentyn dwy flwydd oed, gydaphwyslais ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</u>

- Dechreuwyd cyflwyno Cam 2 ym mis Ebrill 2023. Bydd Cam 2 yr ehangu yn caniatáu i fwy na 9,500 yn rhagor o blant dwy oed gael mynediad at ofal plant Dechrau'n Deg unwaith y bydd y cynllun wedi'i ehangu'n llawn.
- Erbyn diwedd Tachwedd 2023 (y ffigurau diweddaraf), mae 4,195 o leoedd gofal ychwanegol i blant 2 oed wedi cael eu cynnig i rieni yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i 85% o darged 2023-24.
- Yn 2024-25, y targed ar gyfer Cam 2 yw cefnogi 5,522 o blant 2 oed ychwanegol â mynediad at ofal plant o ansawdd.

<u>Y Cynnig Gofal Plant - Defnydd Cyffredinol</u>

- Roedd 12,873 o blant yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant ym mis Hydref 2023. Mae hyn yn cyfateb i 57% o'r rhieni cymwys a amcangyfrifwyd. Mae'r gyfradd hon o 57% a fanteisiodd yn nhymor yr Hydref ychydig yn uwch na'r arfer (55% yw'r ganran ar

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyfartaledd), a byddwn yn monitro'r lefelau i geisio deall a yw hyn yn dynodi tuedd gyffredinol ar gyfer tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf.

Y Cynnig Gofal Plant - Ehangu i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant

- Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 22/23, roedd cymorth yn cael ei roi i 675 o deuluoedd ychwanegol yn sgil ehangu'r Cynnig i gynnwys rhieni cymwys a oedd mewn addysg/hyfforddiant.
- Hyd yn hyn, mae llwyddiant y gwaith hyrwyddo wedi gweld nifer y rhieni mewn addysg a hyfforddiant a gefnogir gan y Cynnig yn neidio i 1,100 yn ystod tymor cyntaf y tymor academaidd newydd hwn - o'i gymharu ag ychydig o dan 200 yn ystod tymor yr Hydref 2022/23.

Effaith y Cynnig Gofal Plant

- Unwaith eto, dangosodd canlyniadau'r gwerthusiad annibynnol diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, fod y cynllun wedi bod yn helpu rhieni i weithio. Soniodd rhieni a holwyd am amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol yn deillio o ddefnyddio'r Cynnig:
    - Dywedodd 75% o rieni fod y Cynnig wedi ei gwneud yn haws iddynt ymgymryd â'u gwaith;
    - Dywedodd 37% o rieni y byddent yn gweithio llai o oriau pe na bai'r Cynnig ar gael iddynt - roedd yr effaith hon yn fwy i rieni a oedd yn ennill llai na £26,000 y flwyddyn (dywedodd 42% y byddent yn gweithio llai o oriau heb y Cynnig);
    - Dywedodd 10% o rieni y byddent mewn swydd â llai o gyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa, a dywedodd 10% ychwanegol na fyddent yn gweithio o gwbl, pe na bai'r Cynnig wedi bod ar gael iddynt.

Rwy'n gobeithio, cyn imi ddod i'r cyfarfod Pwyllgor, y byddaf mewn sefyllfa i rannu gyda chi gopïau o'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru (fersiynau lefel uchel a manwl). Datblygwyd y Cynllun ar sail themâu ansawdd y ddarpariaeth, mynediad at ddarpariaeth a chefnogi a datblygu'r gweithlu. Drwy ganolbwyntio ar y themâu hyn, nod y Cynllun yw cefnogi'r broses o ddatblygu a chyflwyno dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu, drwy ddarparu cyfleoedd gofal plant ac addysg o ansawdd, sy'n gynhwysol ac yn seiliedig ar chwarae.

Rwy'n gobeithio y bydd yr uchod o ddefnydd ichi, ac edrychaf ymlaen at allu helpu'r Pwyllgor i fwrw ymlaen â'i ymchwiliad i'r maes gwaith pwysig hwn.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Service